# Gweithio gyda'r Trydydd Sector – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2020-21

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2682A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

# Cynnwys

Yr hyn y buom yn edrych arno a pham 4

Nid yw'r Cyngor bob amser yn gweithio yn unol â'i weledigaeth ddatganedig ar gyfer y trydydd sector ac nid yw'n gwybod a yw pob contract yn sicrhau gwerth am arian; fodd bynnag, mae gan y Cyngor gyfle i ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer gwaith gyda'r trydydd sector yn y dyfodol drwy adeiladu ar brofiadau cadarnhaol a gafwyd yn ystod y pandemig 5

Nodir ymagwedd strategol hirdymor y Cyngor tuag at weithio gyda'r trydydd sector yn 'Siarter y Trydydd Sector' ond mae'n ymddangos nad yw'r Cyngor bob amser yn gweithio yn unol â'i nodau 5

Nid oes gan y Cyngor ddarlun cyflawn o'r canlyniadau a'r effaith a gyflawnwyd drwy ei waith â sefydliadau'r trydydd sector ac nid yw bob amser yn gwybod a yw'r gost yn cynrychioli gwerth am arian 6

Mae trefniadau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cefnogi ei ffyrdd presennol o weithio ond gallai gynnig mwy o sefydlogrwydd i ddarparwyr trydydd sector 8

Mae'r pandemig wedi gweld mwy o alw am wasanaethau'r trydydd sector; mae hwn yn gyfle ar gyfer y dyfodol 9

Argymhellion 10

# Yr hyn y buom yn edrych arno a pham

1 Gwnaethom gynnal yr asesiad hwn fel rhan o Gynllun Archwilio 2020-21 i adolygu trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ar gyfer gweithio gyda'r trydydd sector wrth ddarparu gwasanaethau. Gohiriwyd y gwaith ar gais y Cyngor oherwydd y galw a wynebodd yn 2020 a 2021 yn ystod pandemig COVID-19.

2 Cynhelir yr asesiad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Gall hefyd lywio astudiaeth ar gyfer gwella gwerth am arian o dan adran 41 o Ddeddf 2004, a/neu archwiliad a gynhaliwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LlCD).

3 Mae gan Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 wyth canlyniad hirdymor i ddinasyddion a gefnogir gan gyfres o gamau gweithredu a mesurau a gaiff eu monitro bob chwe mis. Mae nifer o ganlyniadau dinasyddion y Cyngor yn pwysleisio'r angen i weithio gyda phartneriaid gan gynnwys y trydydd sector. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith uniongyrchol a dwfn ar ffyrdd y Cyngor o weithio ac mae'r asesiad yn ystyried goblygiadau'r pandemig i'r Cyngor yn ei waith gyda'r trydydd sector a maint yr her a ragwelir wrth symud ymlaen.

4 Wrth gynnal yr adolygiad hwn, gwnaethom dynnu ar ganfyddiadau ein hadroddiad astudiaeth llywodraeth leol Y Modd y mae Awdurdodau Lleol yn Ariannu Gwasanaethau'r Trydydd Sector a archwiliodd effeithiolrwydd trefniadau awdurdodau lleol ar gyfer ariannu gwasanaethau'r trydydd sector.

5 Gwnaethom gynnal yr asesiad hwn ym mis Mehefin a mis Gorffennaf 2021.

# Nid yw'r Cyngor bob amser yn gweithio yn unol â'i weledigaeth ddatganedig ar gyfer y trydydd sector ac nid yw'n gwybod a yw pob contract yn sicrhau gwerth am arian; fodd bynnag, mae gan y Cyngor gyfle i ddatblygu ei weledigaeth ar gyfer gwaith gyda'r trydydd sector yn y dyfodol drwy adeiladu ar brofiadau cadarnhaol a gafwyd yn ystod y pandemig

## Nodir ymagwedd strategol hirdymor y Cyngor tuag at weithio gyda'r trydydd sector yn 'Siarter y Trydydd Sector' ond mae'n ymddangos nad yw'r Cyngor bob amser yn gweithio yn unol â'i nodau

6 Mae'r trydydd sector yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys amrywiaeth o 3,202 o sefydliadau a gwasanaethau, yn amrywio o elusennau cenedlaethol a rhyngwladol mawr i drefniadau anffurfiol rhwng ychydig o wirfoddolwyr. Mae'r trydydd sector yng Nghonwy yn darparu amrywiaeth o wasanaethau mewn sawl sector. Hamdden a thwristiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd ag addysg a hyfforddiant yw'r rhai mwyaf cyffredin. Mae hanner sefydliadau'r trydydd sector yn dal i weithredu ar drosiant cymharol isel, ond mae gan bedwar sefydliad drosiant o fwy na miliwn o bunnoedd. Mae tua thri chwarter o sefydliadau trydydd sector y sir yn cael eu hystyried yn ficro-fusnesau, yn cyflogi rhwng dim a naw o bobl, neu'n defnyddio gwirfoddolwyr yn gyfan gwbl. Mae tuedd i'r micro-fusnesau hyn ganolbwyntio ar ddarparu contractau bach i'r Cyngor a chyrff eraill sy'n gweithredu yn yr ardal.

7 Mae'r Cyngor yn cydlynu ei waith yn ffurfiol gyda'r trydydd sector drwy ei waith gyda'r mudiad Cymorth Cymunedol a Gwirfoddol Conwy (CCGC). Roedd y bobl y buom yn siarad â nhw o'r trydydd sector yn gwerthfawrogi'r gwaith a wnaeth CCGC i gefnogi'r trydydd sector, yn enwedig o ran cynorthwyo gyda cheisiadau am grantiau. Er bod CCGC yn gwneud gwaith da gyda sefydliadau a gwirfoddolwyr y trydydd sector ac ar eu cyfer, nid yw'n cynrychioli elfen sylweddol o'r trydydd sector yng Nghonwy.

8 Am flynyddoedd lawer, nododd y Cyngor a'r CCGC eu dull gweithredu mewn cytundeb partneriaeth. Mae hyn wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer. Cytunwyd ar bumed fersiwn y cytundeb ym mis Mehefin 2021 i gwmpasu'r cyfnod hyd at 2024. Mae cytundeb partneriaeth Conwy yn debyg iawn i'r cytundebau sy'n bodoli rhwng cynghorau eraill yng Nghymru a'u trydydd sector. Pan gymeradwyodd y Cyngor y cytundeb partneriaeth newydd ym mis Mehefin 2021 cafodd ei ail-lunio

fel "Siarter y Trydydd Sector". Nid oes unrhyw newid sylweddol o'r cytundeb partneriaeth drafft, er enghraifft mae'r wyth egwyddor a rennir yn aros yr un fath. Roedd y cytundeb hwn yn destun ymgynghoriad cyfyngedig yn 2020. Fodd bynnag, mae'r Cyngor bellach yn bwriadu ailedrych ar y Siarter i egluro rhai materion sy'n ymwneud â'i berthynas â sefydliadau'r trydydd sector.

9 .Mae'n ymddangos bod gwaith gyda'r trydydd sector yn canolbwyntio ar feysydd lle nad oedd y Cyngor eisiau darparu'r gwasanaeth yn uniongyrchol a meysydd nad oedd gan y sector preifat ddiddordeb ynddynt ychwaith. Roedd rhai o'r bobl y buom yn siarad â nhw yn credu mai'r dull hwn oedd strategaeth de facto y Cyngor er bod eraill yn anghytuno ac yn teimlo bod y Siarter yn adlewyrchu'r weledigaeth bresennol. Mae'r Cyngor bellach wedi egluro eu bod yn credu nad yw'n bosibl cael un dull tuag at y trydydd sector cyfan.

10 Fodd bynnag, ymhlith y bobl y buom yn siarad â nhw mae amrywiaeth o safbwyntiau wrth i rai bwysleisio bod perygl wrth oramcanu gallu a chapasiti sefydliadau'r trydydd sector a'r mudiad ei hun i fodloni'r disgwyliadau a allai gael eu gosod arnynt neu beidio. Mae angen i'r Cyngor ddod i farn glir ar ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y trydydd sector ac yna adolygu a chyfleu ei ddull strategol yn seiliedig ar y penderfyniad hwnnw.

11 Mae'r angen i adnewyddu Cynllun Corfforaethol presennol y Cyngor yn 2022 yn rhoi cyfle amserol i'r Cyngor adolygu a nodi sut y mae'n dymuno gweithio gyda'r trydydd sector i helpu i gyflawni ei flaenoriaethau strategol. Byddai hefyd yn gyfle gwirioneddol i'r Cyngor ystyried sut y gall gryfhau y ffordd y mae'n gweithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

12 Mae'r Cyngor wedi cyflawni rhai llwyddiannau nodedig yn ei waith diweddar gyda'r trydydd sector. Er enghraifft, mae grwpiau llyfrgelloedd cymunedol yng Ngherrigydrudion, Penmaenmawr, Llanfairfechan, Bae Cinmel a Bae Penrhyn, wedi cael cefnogaeth sylweddol i sefydlu eu hunain a datblygu eu cyfansoddiadau. Yn ogystal ag arwain at gadw'r llyfrgelloedd cymunedol lleol hyn, mae hefyd wedi arwain at geisiadau grant llwyddiannus ar gyfer gwella adeiladau. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu nifer o ganolfannau cymunedol.

## Nid oes gan y Cyngor ddarlun cyflawn o'r canlyniadau a'r effaith a gyflawnwyd drwy ei waith â sefydliadau'r trydydd sector ac nid yw bob amser yn gwybod a yw'r gost yn cynrychioli gwerth am arian

13 Fel y pwysleisiodd ein hadroddiad Archwilio Cymru cenedlaethol, er mwyn cael perthynas effeithiol â'r trydydd sector, bydd angen i gynghorau sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o gyfanswm yr hyn sy'n cael ei wario drwy gontractau gyda'r trydydd sector. gyda'r trydydd sector. Mae angen tystiolaeth ar gynghorau i sicrhau eu hunain bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau’r Cyngor a gwell canlyniadau.

Byddai hyn yn cynnwys gwerthuso cynlluniau ac ystyried sut y gellir prif ffrydio neu ehangu’r rhai sy'n gweithio'n dda. Mae angen gofal i sicrhau nad yw baich gweinyddol anghymesur yn cael ei roi ar sefydliadau bach i gyflawni hyn.

14 Er bod y Cyngor yn gwario tua £9.2 miliwn ar wasanaethau a gomisiynwyd o'r trydydd sector ar hyn o bryd, dim ond gwerthusiad cyfyngedig sydd ganddo o'r effaith y mae'r gwariant hwn yn ei gael ar draws y sir. Pan gytunodd y Cyngor ar y Siarter newydd yn 2021 ni roddwyd unrhyw ddulliau ar waith i asesu'n rheolaidd y cynnydd o ran cyflawni nodau'r Siarter. Nid osododd gamau gweithredu mewn cynllun gwaith ychwaith. Fodd bynnag, ceir adroddiad blynyddol i bwyllgor craffu'r Cyngor ar waith cyffredinol gyda'r trydydd sector yn y sir.

15 Mae Adran 16 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar gynghorau (gyda phartneriaid) i hybu datblygiad sefydliadau dielw i ddarparu gwasanaethau gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol. Mae'r modelau hyn yn cynnwys mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector. Mae’n rhaid cyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar weithgareddau, a sut y mae wedi cyfrannu at gyflawni dyletswyddau o dan Adran 16, a chyhoeddwyd adroddiad cyntaf Conwy ym mis Mawrth 2019. Mae’rr adroddiad yn ceisio dangos sut mae'r Cyngor yn ceisio cyflawni gwerth cymdeithasol gyda'r trydydd sector a’i ddadansoddiad, yn ddealladwy, yn canolbwyntio ar ganlyniadau mewn gwasanaethau cymdeithasol.

16 Mae gan rai gwasanaethau unigol y Cyngor ddealltwriaeth glir o'u gwariant ar y trydydd sector ac yn gallu dangos yn glir iawn sut mae adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus i gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau’r Cyngor a gwell canlyniadau. Er enghraifft, mae gan wasanaethau cymdeithasol gytundebau lefel gwasanaeth gyda'r trydydd sector gwerth cyfanswm o £4.5 miliwn o wariant blynyddol. Gallant ddangos gwerthusiad clir o'r hyn sy'n cael ei gyflawni ar gyfer eu holl gytundebau dan gontract. Mae gan wasanaethau cymdeithasol strategaeth glir hefyd ar gyfer comisiynu gwaith gyda'r trydydd sector sy'n cynnwys ymrwymiad clir i gydgynhyrchu a chydweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael y canlyniadau gorau. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill ar ffyrdd newydd o weithio, rhannu adnoddau a dysgu, ac arfer da, i helpu i gynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen i feithrin cydnerthedd.

17 Ond mae gan rai o wasanaethau'r Cyngor werthusiad mwy cyfyngedig o werth am arian y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector. Er enghraifft, mae gan y Cyngor gytundeb ar lefel gwasanaeth gyda Crest Cooperative, yn ymwneud â chasglu gwastraff swmpus, casglu tecstilau a gwastraff bach a gwastraff trydanol. Mae pobl a gefnogir gan Crest yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd a’r nod yw cefnogi pobl i newid eu bywydau drwy symud yn nes at gyflogaeth barhaol. Mae Crest yn gweithio gyda'r bobl anoddaf eu cyrraedd yn y gymuned, llawer ohonynt â phroblemau sy'n eu heithrio rhag ymgysylltu cymdeithasol ac economaidd llawn ac mae’n darparu hyfforddiant, cyfle i wirfoddoli a chyfleoedd gwaith cynaliadwy iddynt. Fodd bynnag, prin yw'r wybodaeth sydd gan y Cyngor am werthuso gwerth

am arian y gwasanaethau a ddarperir gan Crest a sut y cafwyd adborth ynghylch y gwasanaeth gan y bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth.

18 Mae trefniadau gwerthuso presennol y Cyngor ar gyfer y trydydd sector, y tu allan i'r gwasanaethau cymdeithasol, yn drafodiadol i raddau helaeth, mae tuedd iddynt ganolbwyntio ar nifer y gweithgareddau a gyflawnir, yn aml heb lawer o gyd-destun na chyfeiriad at ansawdd neu ganlyniadau.

## Mae trefniadau o ddydd i ddydd y Cyngor yn cefnogi ei ffyrdd presennol o weithio ond gallai gynnig mwy o sefydlogrwydd i ddarparwyr trydydd sector

19 Mae cyfweleion y trydydd sector y buom yn siarad â nhw sydd â chontractau gyda'r Cyngor yn fodlon ar y cyfan â threfniadau gweinyddol a monitro'r Cyngor. Er enghraifft, nid oedd y broses ar gyfer gwneud cais am gyllid yn cael ei hystyried yn feichus, ac ystyriwyd bod trefniadau monitro'r Cyngor ar gyfer prosiectau a ariennir gan y trydydd sector yn gymesur. Mae proses grant gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn destun adolygiad mewnol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi'i symleiddio i ffurfio dwy brif ffrwd grant (plant a thai) ac roedd y bobl y buom yn siarad â nhw yn teimlo bod hyn wedi lleihau dyblygu a chynyddu hyblygrwydd ar gyfer ariannu gwasanaethau.

20 Yn dilyn pryderon a fynegwyd, gan y trydydd sector, ynghylch y ffaith bod llawer o gontractau yn rhai cyfnodau byr, mae'r Cyngor wedi ymrwymo ers 2019 i ddyfarnu contractau tymor hwy, o dair i bum mlynedd o hyd pan fo’n bosibl. Nod hyn oedd helpu i ddarparu rhywfaint o sefydlogrwydd a chynaliadwyedd i ddarparwyr trydydd sector a lleihau problemau staffio sylweddol o ran recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, dangosodd contractau'r trydydd sector a archwiliwyd gennym fod 78% am flwyddyn yn unig gyda dewis i'w hadnewyddu. Mae'r mater hwn yn parhau i fod yn destun pryder i gyfweleion y trydydd sector y buom yn siarad â nhw. Yn 2020, adolygodd y Cyngor ei gyllid i'r trydydd sector i nodi meysydd lle yr oedd dyblygu, ond er mwyn cynnal perthynas well, bydd angen iddo wneud hyn yn fwy systematig er mwyn sicrhau bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'i drydydd sector.

21 Mewn cyferbyniad, yn adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, ceir trefniadau cytundebol sefydledig gyda'r trydydd sector sy'n cael eu monitro'n rheolaidd gan y Cyngor a gydag ymgysylltiad rheolaidd a nodir yn y contractau. Mae llawer o'r rhain yn rhan o'r Rhaglen Cefnogi Pobl, rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai. O'r herwydd, mae'n ofynnol i’r rhai sy’n cael y cyllid fodloni ystod o gytundebau adrodd a lefel gwasanaeth. Fel arfer, mae'r derbynwyr yn sefydliadau sefydledig, fel Cymdeithasau Tai, â gweithlu proffesiynol. Mae llawer o brosiectau Rhaglen Cefnogi Pobl trydydd sector Conwy wedi bod yn rhedeg ers dros ddegawd ac maent yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.

## Mae'r pandemig wedi gweld mwy o alw am wasanaethau'r trydydd sector; mae hwn yn gyfle ar gyfer y dyfodol

22 Gan adeiladu ar y galw cynyddol am gymorth yn ystod y pandemig, mae gan y Cyngor gyfle i ystyried y rhan y mae'r trydydd sector yn ei chwarae yn ei flaengynlluniau. Gallai'r Cyngor sicrhau swyddogaeth ehangach o lawer i’r trydydd sector yn ei waith ataliol ac wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Yn 2020, yng Nghonwy ac ar draws y wlad, gwelsom gynnydd yn nifer y bobl sy'n barod i wirfoddoli i helpu pobl yn eu cymunedau. Gweithiodd y Cyngor gyda'r trydydd sector a phartneriaid eraill i ymateb i'r pandemig. Dylai'r Cyngor werthuso effaith y profiad hwn gyda'r trydydd sector a gwerthuso unrhyw wersi a ddysgwyd. Mae ein hadroddiad cenedlaethol yn 2017 yn nodi manteision cydweithio cynyddol â sefydliadau'r trydydd sector. Gall sefydliadau'r trydydd sector fod yn sensitif i amgylchiadau lleol ac ymateb yn hyblyg i anghenion amrywiol cymunedau.

23 Mae gan y galw cynyddol am wasanaethau rhai sefydliadau y potensial i gyfyngu ar eu gallu i gynnal eu gweithgareddau codi arian arferol a chyfyngu ar gapasiti’r trydydd sector i gymryd rhan mewn trafodaethau mwy strategol neu ddamcaniaethol nad oes ganddynt o bosib, gynnig neu gyllid pendant ar ei ddiwedd. Yn ychwanegol at hyn, mae'n ymddangos bod ymgysylltu rhwng CCGC a'r Cyngor ar lefel strategol wedi lleihau, yn ddealladwy, yn ystod y pandemig.

24 Byddai ymwreiddio perthynas fwy cydweithredol yn llwyddiannus yn golygu newid diwylliannol sylweddol i'r trydydd sector. Ni ddylid tanystyried newid diwylliannol posibl i’r ddwy ochr, ond pwysleisiodd ein hadroddiad cenedlaethol y manteision y gellid eu cyflawni.

25 Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor nifer bach iawn o swyddogion sy'n darparu adnodd canolog ar gyfer cydgysylltu a goruchwylio cyfeiriad strategol gwaith gyda'r trydydd sector. Yn ystod y pandemig, mae swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr y trydydd sector wedi gweithio'n eithriadol o galed i ymateb yn llwyddiannus i'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu. Mae'n amheus bod y dull hwn yn gynaliadwy heb ddefnyddio adnoddau mewn ffordd wahanol.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

Mae'r tabl isod yn rhestru'r argymhellion yr ydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Argymhellion** |
| --- |
| A1 Mae’n rhaid i'r Cyngor gryfhau ei weledigaeth strategol a chyflawni trefniadau drwy:<br>• ymgorffori'n llawn Siarter ddiwygiedig y Trydydd Sector;<br>• adeiladu ar ei brofiad o’r pandemig ac, os oes angen, diwygio Siarter y Trydydd Sector;<br>• sicrhau bod ei ddull strategol o ymdrin â'r trydydd sector yn y dyfodol yn mynd i'r afael yn ddigonol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; a<br>• rhaid i'r Cyngor gryfhau ei weledigaeth strategol a chyflawni trefniadau drwy sicrhau bod y strategaeth yn destun adolygiad blynyddol a chraffu priodol gan Gynghorwyr. |
| A2 Mae’n rhaid i'r Cyngor roi trefniadau ar waith i sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig ac yn sicrhau gwerth am arian mewn cysylltiad â phartneriaethau trydydd sector. |
| A3 Mae angen i'r Cyngor weithredu ar ei ymrwymiad i gynnig contractau tymor hwy i helpu i ddatblygu trydydd sector sefydlog. |

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English